Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Y Mynydd Du**
**School Road**
**Talgarth**
**Powys**
**LD3 0DQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Mynydd Du

Mae Ysgol y Mynydd Du yn nhref Talgarth ym Mhowys.  Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2017, o ganlyniad i uno ysgolion cynradd Bronllys a Thalgarth.  Mae gan yr ysgol 104 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed.  Mae tri o athrawon amser llawn a phump o athrawon rhan-amser yn yr ysgol, a phedwar dosbarth oedran cymysg.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y ddwy flynedd ddiwethaf yw tua 9%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%.  Mae bron pob un o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig.  Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.  Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 16% o'i disgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Dechreuodd y pennaeth dros dro yn ei swydd ym mis Medi 2019.  Hwn yw arolygiad cyntaf yr ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan y staff yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion, ac mae bron pob un ohonynt, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd da, ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r pennaeth dros dro yn arwain yr ysgol yn effeithiol, ac yn ymgysylltu'n llwyddiannus â phob un o'r staff i greu ethos cyffredin sy'n rhoi diddordebau disgyblion wrth wraidd eu gwaith.  Caiff gymorth da iawn gan aelodau staff a llywodraethwyr.

Mae staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm, ac mae ganddynt berthynas waith lwyddiannus â disgyblion.  Maent yn darparu amgylchedd dysgu pwrpasol a gwersi a gweithgareddau diddorol ar eu cyfer.  O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol, yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi, ac yn hoffi cymryd rhan yn yr amrywiaeth o weithgareddau a gynigir iddynt.  Maent yn falch o'u hysgol a'u gwaith, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt agweddau cadarnhaol at ddysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu i'r un safon ym mhob maes dysgu

A2 Gwella llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion

A3 Sicrhau cysondeb wrth ddatblygu medrau rhifedd ar draws pob dosbarth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd da, ac yn cyflawni’n dda. Maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr cydwybodol a hyderus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau siarad a gwrando. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn siarad yn hyderus am eu gwaith a’u profiadau, er enghraifft wrth drafod sut i wneud salad ffrwythau iach. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu’n glir ac yn hyderus. Maent yn gwrando’n astud pan fydd disgyblion eraill yn siarad, ac yn cyfrannu’n feddylgar at drafodaethau, gan gynnig barn aeddfed.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Defnyddiant eu gwybodaeth am seiniau llythrennau i adnabod geiriau newydd yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn darllen yn rhugl, ac yn trafod eu hoff lyfrau a chymeriadau â hyder a dealltwriaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad am ddarllen er pleser a’r modd y mae’n cefnogi eu dysgu. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn briodol i gasglu gwybodaeth berthnasol trwy frasddarllen a bwrw golwg, er enghraifft wrth ymchwilio i’r modd y mae’r Eifftiaid yn creu mygydau marwolaeth.

Yn y dosbarth derbyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn dda trwy ystod eang o weithgareddau, fel ymarferion hwyliog wrth fodelu toes. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu stori antur ddiddorol am chwilotwr llwynogod. Mae llawer o ddisgyblion yn sillafu geiriau sy’n digwydd yn aml yn llwyddiannus, ac yn defnyddio atalnodau llawn yn gywir. Wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o arddulliau ysgrifennu, ac yn rhoi ystyriaeth addas i wahanol gynulleidfaoedd. Trwy gydol y cyfnod, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu cynllunio ac ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol i wella ansawdd geirfa ac iaith ddisgrifiadol. Ym Mlynyddoedd 5 a 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu adroddiadau teimladwy am Gelert a’r Blaidd, gan ddefnyddio iaith aeddfed a llawn dychmygus. Ym mhob grŵp blwyddyn, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn rheolaidd mewn pynciau eraill, nid yw llawer ohonynt bob amser yn ysgrifennu i’r un safon ag y maent mewn Saesneg fel pwnc. Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith yn llyfrau llawer o ddisgyblion yn anniben, ac yn dangos diffyg gofal.

Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg llafar. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb i gyfarwyddiadau yn briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’r Gymraeg a ddefnyddir gan athrawon mewn gwersi Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 6, mae medrau ysgrifennu’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Megis dechrau datblygu y mae eu medrau darllen a’u dealltwriaeth o’r hyn y maent wedi’i ddarllen.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda ar draws yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn trin arian yn gywir, ac yn

datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a thrin data. Maent yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws meysydd dysgu mewn ffordd bwrpasol ac ymarferol, er enghraifft wrth fesur hyd eu breichiau a'u coesau tra'n dysgu sut mae cyhyrau'n gweithio. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gynhwysfawr o strategaethau rhif. Maent yn cymhwyso eu medrau yn effeithiol i ddatrys problemau heriol, er enghraifft wrth gynllunio byngalo wedi'i adeiladu'n bwrpasol â chyfarwyddiadau cynllun penodol. Maent yn cyfrifo costau, gan gynnwys treth ar werth, yn gywir. Fodd bynnag, mae datblygiad medrau rhifedd ar draws yr ysgol yn anghyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mewnbynnu data i daenlenni yn hyderus, ac yn llunio amrywiaeth o siartiau a graffiau. Erbyn Blwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio cronfeydd data syml yn briodol i gofnodi gwybodaeth am eu gwaith testun, fel disgrifiadau o Dduwiesau Groegaidd. Mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Maent yn defnyddio apiau fideo ac animeiddio yn rheolaidd i recordio a thrafod eu gwaith, er enghraifft am greaduriaid chwedlonol. Erbyn Blwyddyn 6, mae medrau TGCh y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Maent yn hyderus yn ysgrifennu algorithmau a dadfygio codau, er enghraifft wrth raglennu robot trwy ddrysfa. Maent yn mewngofnodi'n annibynnol i'w cyfrifon personol ac yn gwneud defnydd da o'r ystod o adnoddau sydd ar gael i'w cynorthwyo yn yr ysgol ac yn y cartref. Maent yn creu cyflwyniadau diddorol, sy'n cynnwys pytiau fideo a sain, i addysgu disgyblion eraill am destunau, fel e-ddiogelwch.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn falch o'u hysgol a'u cyflawniadau. Maent yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo'n hyderus yn amgylchedd yr ysgol. Mae cynhesrwydd a chryfder y perthnasoedd gwaith rhwng disgyblion a staff yn golygu eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn gofidio neu'n pryderu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo a'u gwerthfawrogi'n dda. Mae hyn yn eu hannog i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau yn ystod, ac ar ôl, yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais, ac mae ganddynt foesau da, maent yn cyfarch pobl eraill ac yn dangos natur ofalgar tuag at eu cyfoedion. Dangosant barch at oedolion, ac at ei gilydd, maent yn gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eu ffrindiau a'u hathrawon yn ei ddweud ac yn ymateb i'w syniadau yn ystyriol. Yn ystod gwersi, mae'r parch a'r pryder ar y ddwy ochr a ddangosant i'w gilydd yn cyfrannu'n effeithiol at greu amgylchedd dysgu cadarnhaol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym mewn gwersi, ac yn symud rhwng tasgau yn synhwyrol ac yn effeithlon. Maent yn canolbwyntio'n dda yn y dosbarth, ac yn dyfalbarhau pan fyddant yn gweld gwaith yn anodd. Maent wedi datblygu agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu, yn ymateb yn dda i dasgau heriol, ac o ganlyniad, mae ganddynt ymagwedd fwy gwydn at eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn mwynhau'r testunau y maent yn eu hastudio, ac yn gweithio'n llwyddiannus mewn grwpiau, parau ac fel unigolion. Cânt eu cynnwys yn gynyddol mewn asesu eu dysgu eu hunain, sy'n eu helpu i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif, ac yn werthfawrogol iawn o'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar waith yr ysgol. Mae aelodau o bwyllgorau amrywiol yn weithgar a brwdfrydig. Maent yn falch o'u hymglymiad wrth benderfynu gwerthoedd yr ysgol a'r effaith gadarnhaol mae'r rhain wedi ei chael ar ymddygiad a hunan-barch disgyblion. Er enghraifft, mae 'cynllun gwobrau gwerth y mis' gan y Llysgenhadon Gwych wedi annog llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus i ddatblygu rhinweddau fel hyder, parch a goddefgarwch, a pharodrwydd i roi cynnig ar bethau newydd. Mae'r eco-gynghorwyr yn aelodau gweithgar o gymuned yr ysgol. Maent yn falch o'u gweithredoedd, sydd wedi effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd, er enghraifft trwy atal prynu poteli llaeth a gwellt plastig a chynnig dewisiadau mwy cynaliadwy yn lle'r rhain.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod sut i gadw'n ddiogel. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda o e-ddiogelwch, ac mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn siarad yn hyderus am yr angen i ddiogelu eu hunaniaeth, ac am beryglon cysylltu â phobl ar-lein.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, a chadw'n heini. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn hyrwyddo'r siop ffrwythau amser egwyl yn llwyddiannus i annog disgyblion i fwyta ffrwythau yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud eu bod yn mwynhau rhedeg y Filltir Ddyddiol, ac yn disgrifio'r modd y mae'n eu helpu i fod yn fwy heini.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi ymateb yn gadarnhaol i ffocws yr ysgol ar wella presenoldeb, ac maent yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae gan oedolion a disgyblion ar draws yr ysgol berthnasoedd gwaith sy'n cefnogi amgylchedd dysgu pwrpasol. Mae athrawon yn paratoi gwersi a gweithgareddau effeithiol ar gyfer disgyblion, sy'n eu hannog i gymryd diddordeb yn eu gwaith. Maent yn esbonio syniadau newydd yn ofalus iddynt ac yn ymestyn dysgu disgyblion yn llwyddiannus trwy brofiadau ymarferol. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar i ehangu dealltwriaeth disgyblion, a'u hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn rhoi adborth defnyddiol ar lafar i ddisgyblion, ac yn eu holi'n effeithiol i archwilio eu dealltwriaeth. Mae hyn yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu a gwerthuso eu hymdrechion yn rheolaidd. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, cânt gyfleoedd cynyddol i asesu eu gwaith eu hunain, a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i lwyddo yn eu gwaith, ac yn eu helpu i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu i safon ddigon uchel yn gyson ym mhob maes dysgu, a bod llawysgrifen a chyflwyniad gwaith yn ddigon destlus a thaclus.

Mae staff wedi sefydlu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gadarn. Mae staff yn meithrin annibyniaeth disgyblion, ac yn datblygu eu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh yn dda. Mae'r ffaith fod pob un o'r disgyblion yn cael cyfle i elwa ar yr ardal yn yr awyr agored yn rheolaidd yn sicrhau eu bod yn elwa ar weithgareddau ysgogol dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae tasgau effeithiol â ffocws yn gysylltiedig â'r testun 'fy nghorff iach a mi' ('my healthy body and me') yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio a chymryd rhan weithredol yn eu dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys. Mae athrawon yn cynllunio'n greadigol i adeiladu'n systematig ar y medrau y mae disgyblion yn eu datblygu yn y cyfnod sylfaen. Maent yn trefnu profiadau dysgu diddorol a llawn dychymyg ar gyfer disgyblion, er enghraifft trwy destun difyr am y gofod. Maent yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gynnig awgrymiadau a syniadau am yr hyn yr hoffent ei astudio ar ddechrau pob testun. Mae hyn yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion, ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith.

Mae athrawon yn nodi llawer o gyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau TGCh i gefnogi ac ymestyn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Defnyddiant amrywiaeth o strategaethau ymyrraeth rhifedd a llythrennedd yn effeithiol er mwyn targedu unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ym meysydd eraill y cwricwlwm yn gyson ar draws pob dosbarth.

Mae athrawon yn dechrau cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion. Mae gwersi Cymraeg dynodedig yn llwyddiannus o ran ennyn eu diddordeb, ac o ran meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru yn effeithiol, er enghraifft trwy ddathlu bywyd Dewi Sant, cymryd rhan yn eisteddfod yr ysgol ac ymweld â gwersyll yr Urdd yn Llangrannog.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn rhoi gofal, cymorth ac arweiniad da i ddisgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar eu safonau a'u lles. Mae pob un o'r staff yn canolbwyntio'n dda ar hyrwyddo disgwyliadau a gwerthoedd uchel sy'n annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol sydd â lefel gref o barch, ymddiriedaeth a chydweithrediad rhwng disgyblion, staff a rhieni.

Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, ac mae athrawon yn gwneud defnydd da o wybodaeth asesu i nodi anghenion disgyblion yn gynnar. Mae hyn yn eu helpu i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion emosiynol neu ymddygiadol, a disgyblion mwy abl, yn dda. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda rhieni i helpu sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o ba mor dda y mae eu plentyn yn gwneud. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i gynorthwyo'r disgyblion hyn, yn enwedig wrth ddelio ag ymddygiad heriol. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn cyflwyno ystod o raglenni ymyrraeth strwythuredig sy'n llwyddiannus iawn o ran gwella medrau sillafu a darllen disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion a nodwyd yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar waith a bywyd yr ysgol trwy grwpiau disgyblion amrywiol fel y cyngor ysgol, y cyngor eco, llysgenhadon gwych a'r Criw Cymraeg. Maent wedi sefydlu'r 'Sefydliad Ffrindiau' i ddatblygu cysylltiadau â'r gymuned. Caiff y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol ar hyder disgyblion, ac maent yn meithrin ymdeimlad o falchder yn eu hysgol.

Trwy wersi a gwasanaethau rheolaidd, mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddathlu amrywiaeth a datblygu eu dealltwriaeth ysbrydol, foesol a chymdeithasol. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol yn helpu hyrwyddo ac annog gwerthoedd fel gonestrwydd a thegwch, ac yn datblygu gwydnwch a goddefgarwch ymhlith disgyblion. Mae staff yn annog disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol a datblygu empathi tuag at bobl eraill, trwy ofalu am yr amgylchedd neu godi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol, er enghraifft. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r modd y mae eu gweithredoedd ar y cyd yn cyfrannu at fudd ehangach y gymuned.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o glybiau ar ôl yr ysgol, sy'n datblygu profiadau disgyblion mewn chwaraeon, a'u profiadau cymdeithasol yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau fel pêl-droed, garddio, codio, gwyddoniaeth, lles a'r Gymraeg. Mae partneriaethau buddiol ag ysgolion eraill o fewn y clwstwr lleol a'r awdurdod lleol yn sicrhau cyfnod pontio esmwyth i ddisgyblion i'r ysgol uwchradd o'u dewis ar ddiwedd Blwyddyn 6.

Mae ymweliadau addysgol â lleoedd fel Castell Bronllys a pharc gwledig Craig y Nos yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn mynychu canolfan awyr agored Llangrannog lle maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol a hwyliog. Mae'r ysgol hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion berfformio mewn cyngherddau a gwasanaethau eglwys, a chystadlu yn eisteddfod yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am wneud dewisiadau iach am eu ffordd o fyw. Er enghraifft, mae'r testun yn y tymor hwn yn y cyfnod sylfaen, sef 'fy nghorff iach a mi' ('my healthy body and me') yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff a'r modd y mae'n cryfhau cyhyrau ac yn cynyddu curiad y galon. Trwy ymweliadau gan yr heddlu lleol, mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn dysgu am beryglon camddefnyddio sylweddau, pwysau gan gyfoedion a phwysigrwydd gwneud dewisiadau cadarnhaol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth hynod ofalgar a chefnogol, a gweledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol. Mae hyn yn helpu sicrhau safonau uchel o ran lles a chyflawniad disgyblion. Mae'n cyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus sydd â strwythurau a pholisïau clir y mae arweinwyr a staff eraill yn eu rhoi ar waith yn gyson ac yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ethos teuluol y cydweithredu ar

draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol sy'n llwyddo i gyflawni ei datganiad cenhadaeth, sef 'gyda'n gilydd, gallwn ni ddysgu a thyfu' ('together we learn and grow').

Mae arweinwyr a staff wedi gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i sefydlu ysgol newydd gyda phob aelod o staff yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y ffocws cryf sy'n bodoli ar annog dysgwyr i gyflawni safonau da mewn llythrennedd, rhifedd, TGCh a lles.

Mae system rheoli perfformiad yr ysgol yn gadarn ac yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad proffesiynol pob un o'r staff. Mae'r broses hon yn cysylltu'n effeithiol â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar wella safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae staff wedi gwella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl, yn enwedig mewn mathemateg. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i bob aelod o staff rannu profiadau ac arfer dda â chydweithwyr yn yr ysgol, a gyda staff mewn ysgolion eraill, fel datblygu medrau dysgu'n annibynnol disgyblion, gwella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a meithrin agwedd fwy cadarnhaol ymhlith bechgyn at ddysgu.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cael eu hysbysu'n dda am ei pherfformiad. Mae mwyafrif y llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, ac mae ychydig ohonynt yn ymgymryd ag ystod bwrpasol o weithgareddau, fel teithiau dysgu. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad.

Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol. Maent yn cydweithio'n agos ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd. Caiff diwylliant o werthuso parhaus, sy'n canolbwyntio'n fanwl ar ddeilliannau disgyblion, ei ymgorffori ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae systemau cadarn i adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella, a chymryd camau effeithiol i'w rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith, arsylwadau gwersi rheolaidd, dadansoddiad gofalus o ddata ar berfformiad yr ysgol a threfniadau asesu mewnol. O ganlyniad, mae arweinwyr a staff yn adnabod eu hysgol yn dda iawn ac yn mynd i'r afael â gwelliannau yn gyflym ac yn llwyddiannus. Mae pob un o'r athrawon a'r staff yn cymryd rhan weithredol yn y broses monitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae cynnydd yng nghyrhaeddiad disgyblion o'u mannau cychwyn yn dystiolaeth glir o hyn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y blaenoriaethau presennol wrth wraidd datblygu'r ysgol ymhellach, a bod sylw gofalus yn cael ei roi iddynt. Mae'r ysgol yn llwyddiannus, er enghraifft, yn hyfforddi staff a disgyblion fel cyfryngwyr cyfoedion i ddatblygu ymagwedd therapiwtig i helpu a chefnogi disgyblion â'u lles emosiynol a chymdeithasol.

Mae'r strwythur staffio clir yn nodi cyfrifoldebau penodol staff, ac o ganlyniad, mae pob aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rôl yn yr ysgol. Mae arweinwyr wedi creu diwylliant dysgu ac ethos cefnogol ar draws yr ysgol newydd. Mae gan yr ysgol adeilad eang a phleserus, ac ystod dda iawn o adnoddau dysgu sy'n hyrwyddo cyflawniad a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn cysylltu gwariant yn briodol â blaenoriaethau ar gyfer gwella, ac yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i gynnal cymorth ar gyfer disgyblion penodol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2020